

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Chris Moore
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
Cyngor Sir Gaerfyrddin
Neuadd y Ddinas
Caerfyrddin
SA31 1JP

Cyfeirnod: WPP-20/21

Dyddiad cyhoeddi: 20/07/2021

Annwyl Chris,

Datganiad Blynyddol Cydbwyllgor Partneriaeth Pensiwn Cymru 2020-21

Yn unol â gofynion Adran 12 ac Adran 14 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 rhoddaf fy adroddiad ar ddatganiad blynyddol cydbwyllgor Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

Rwyf wedi gwneud ein gwaith yn unol â'r gweithdrefnau a nodwyd a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. I grynhoi, mae'r gweithdrefnau hyn yn ei wneud yn ofynnol i ni ystyried a yw'r datganiad blynyddol o gyfrifon:

- wedi eu paratoi ar sail resymol (er enghraifft, mae'r ffigurau yn cyd-fynd â'r cofnodion sylfaenol y maent wedi'u paratoi ar eu sail ac yn gyson â thrafodiadau a nodwyd yng nghyfrifon statudol yr awdurdodau lleol cysylltiedig ar gyfer yr un cyfnod adrodd); ac
- wedi'u cyfrifo'n gywir.

Tudalen 1 o 2 - Datganiad Blynyddol Cydbwyllgor Partneriaeth Pensiwn Cymru 2020-21 - please contact us in Welsh or English / cysylltwch â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Adroddiad archwilio ar y datganiad blynyddol o gyfrifon sy'n ymwneud â chydbwyllgor Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

Yn amodol ar gyflawni'r ddau gam canlynol yn foddhaol, byddwn yn gallu ardystio datganiad blynyddol y cydbwyllgor a chyhoeddi ein hysbysiad o gwblhau'r archwiliad:

- ar 26 Gorffennaf 2021, caiff etholwyr llywodraeth leol arfer eu hawliau o dan adrannau 30 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i holi'r Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â chyfrifon y cydbwyllgor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 neu eu gwrthwynebu. Pe bai unrhyw faterion yn codi o'r broses hon byddai angen i ni eu hystyried cyn gallu ardystio datganiad blynyddol y cydbwyllgor. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn yng nghyfarfod y cydbwyllgor ar 28 Gorffennaf 2021.
- y cydbwyllgor i gymeradwyo datganiad o gyfrifon 2020-21 y mae disgwyl ei wneud yn ei gyfarfod ar 28 Gorffennaf 2021.

Pan fydd y camau hyn wedi'u cwblhau a'n bod yn fodlon, byddwn yn gallu cadarnhau'r canlynol:

'Ar sail ein hadolygiad a'n barn, mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Datganiad Blynyddol yn cyd-fynd ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi'u dwyn i'n sylw sy'n peri pryder na fodlonwyd gofynion deddfwriaeth a rheoleiddiol perthnasol.'

Materion eraill

Nid oes gennym unrhyw faterion eraill y mae angen i ni dwyn eich sylw atynt.

Yn gywir



Richard Harries

ar gyfer ac ar ran Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru